



CYHOEDDWYD MEHEFIN 2020

Cynllun Sefydlogrwydd Sgiliau CITB

2020-21

Rhagair y Prif Weithredwr

Y Cynllun Sefydlogrwydd Sgiliau yw ein cynllun busnes ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2020-21, ac mae'n adlewyrchu newid sylweddol o'n dibenion gwreiddiol. Mae'r diwydiant adeiladu wedi cael, ac wrthi'n cael, ei ailffurfio gan bandemig COVID-19. Er na fyddwn yn deall ei effaith lawn am gryn amser i ddod, mae'n glir bod heriau sylweddol yn gysylltiedig ag addasu i ffyrdd newydd o weithio, nodi dulliau newydd o hyfforddi'r gweithlu a pharhau i fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o weithwyr.

Y flwyddyn hon, rydym yn bwriadu targedu cymorth sydd ar gael yn hawdd yn wyneb yr heriau allweddol hyn. Ar adeg pan fo'r diwydiant o dan bwysau enfawr, y peth cywir hefyd yw ein bod yn casglu llai o Lefi ganddo. Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi na fyddem yn casglu unrhyw Lefi tan ddechrau mis Gorffennaf.

Rydym bellach wedi cytuno na fydd angen i unrhyw un dalu unrhyw Lefi tan fis Medi ac y gall y Lefi gael ei dalu dros hyd at 12 mis. Ar ôl hynny, byddwn yn ceisio haneru'r bil ar gyfer Lefi'r flwyddyn nesaf, a fydd yn cael ei gasglu o fis Medi 2021, a bydd opsiwn ar gael i ymestyn taliadau hyd at fis Mawrth 2022. Bydd hyn yn golygu bod cyflogwyr yn talu 25% yn llai dros y ddwy flynedd.

Mae hyn yn golygu y byddwn bellach yn casglu £73.8m y flwyddyn hon o gymharu â'r £198m a ragwelwyd cyn yr argyfwng. Mae angen i ni ffocysu'r cyllid llai hwn er mwyn helpu cyflogwyr yn syth, sy'n golygu ein bod wedi gorfod oedi neu ganslo rhai prosiectau tymor hwy a oedd yn cael eu cyllido. Roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â moderneiddio'r diwydiant, rhoi sylw i'r bylchau yn y ddarpariaeth hyfforddiant a helpu cyflogwyr i ddenu talent newydd a mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth. Mae'r rhain yn dal i fod yn faterion allweddol, a byddwn yn ystyried rhoi sylw i'r meysydd hyn eto yng nghynllun y flwyddyn nesaf ar ôl holi'r diwydiant yr haf hwn ynghylch ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.



Sarah Beale
Prif Weithredwr



Trosolwg: Ein nodau ar gyfer sgiliau adeiladu yn 2020

Mae ein cynlluniau'n seiliedig ar siarad â'r Llywodraeth a llawer o fusnesau adeiladu o bob maint dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ddeall eu hanghenion.

Rhwng nawr a mis Ebrill, byddwn yn buddsoddi'r Lefi i helpu'r diwydiant i aildechrau gweithgarwch ac addasu i ffyrdd newydd o weithio ond, ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a helpu'r diwydiant i foderneiddio ac addasu i amgylchiadau newydd.

Ein ffocws ar hyn o bryd yw helpu cyflogwyr drwy'r argyfwng hwn er mwyn diwallu eu hanghenion hyfforddiant, sicrhau bod hyfforddiant ar gael a helpu prentisiaid i gwblhau eu rhaglenni.

Byddwn yn defnyddio ein profiad o weld Carillion yn methu i gael swyddi i brentisiaid ac yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i gadw sgiliau yn y diwydiant.

Byddwn hefyd yn parhau i helpu'r diwydiant i fynd i'r afael â heriau allweddol megis gwella cynhyrchiant a lleihau allyriadau carbon. Am fod llai o gyllid ar gael, byddwn yn canolbwyntio'n fwy ar weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a'r Llywodraeth. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth i sicrhau bod prentisiaethau ac addysg bellach yn datblygu'r gweithwyr medrus sydd eu hangen ar y diwydiant.

Mae'r trosolwg o raglenni y mae CITB yn eu cyllido'n rhestru'r hyn rydym yn ei wneud y flwyddyn hon ac yn dangos sut y bydd y Lefi'n cael ei wario (tudalennau 11 i 13). Yn y ddogfen hon, rydym wedi dewis rhai o'r prif bethau a fydd yn denu pobl i'r diwydiant ac yn eu helpu i ddatblygu. Ym mhob achos, bydd cydbwysedd yn cael ei sicrhau rhwng diwallu anghenion ar y pryd a gosod seiliau ar gyfer gwella.

'Ein ffocws ar hyn o bryd yw helpu cyflogwyr drwy'r argyfwng hwn er mwyn diwallu eu hanghenion hyfforddiant, sicrhau bod hyfforddiant ar gael a helpu prentisiaid i gwblhau eu rhaglenni.'



Gyrfaoedd: Denu pobl i'r diwydiant a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

Yn y tymor byr, byddwn yn canolbwyntio ar helpu'r rhai sydd eisoes yn cael hyfforddiant ac yn gweithio yn y diwydiant.

Rydym yn gwybod bod llawer yn wynebu anawsterau wrth i waith ailddechrau. Oherwydd hynny, rydym wedi diogelu faint o'r Lefi sy'n cael ei fuddsoddi mewn cymorth iechyd meddwl, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Lighthouse Club er mwyn cyflwyno hyfforddiant ymarferol a rhoi cymorth ymarferol. Mae dros 200 o hyfforddwyr wedi cael hyfforddiant i gyflwyno cyrsiau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, ac mae dros 5,000 o unigolion wedi gwneud y cyrsiau hynny. Mae ein Cynllun Grantiau hefyd yn cefnogi hyfforddiant iechyd meddwl (e.e. ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a chymorth cyntaf iechyd meddwl).

Yn ogystal â helpu'r unigolion hynny, bydd hyn hefyd yn gwella barn am y diwydiant fel lle i weithio a'i allu i ddenu talent pan fydd y farchnad lafur yn tynhau unwaith eto. Er mwyn gwella amrywiaeth ar draws y diwydiant, byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch er mwyn helpu i wneud y diwydiant yn fwy cynhwysol.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynllun cadw talent sy'n ceisio rhoi cyfleoedd newydd i'r rhai sydd wedi colli eu swyddi. Byddwn yn tynnu sylw at y wybodaeth berthnasol am y diwydiant adeiladu (Am Adeiladu) a/neu gymorth hyfforddiant (e.e. drwy'r Cynllun Grantiau). Ar ben hynny, byddwn yn helpu drwy roi cymorth hyfforddiant a chynorthwyo â lleoliadau i brentisiaid sydd wedi colli neu sydd mewn perygl o golli eu swyddi.

Un o'r rhwystrau mwyaf i ymuno â'r diwydiant yw profiad gwaith. Drwy'r Gronfa Sgiliau Adeiladu, sy'n cael ei chyllido gan y Llywodraeth a'i rhedeg gan CITB, mae o leiaf 13,100 o unigolion wedi cael profiad o adeiladu ar safle adeiladu, sy'n rhagori ar y targed o ddatblygu 13,000 o weithwyr parod am waith a'r safle adeiladu a chael gwaith i 3,300 o unigolion. Mae'r rhaglen hon yn parhau'r flwyddyn hon, ac rydym yn disgwyl iddi fod ar waith yn llawn o fis Gorffennaf wrth i safleoedd adeiladu ailagor.

Mae'r Lefi'n cael ei fuddsoddi mewn canolfannau hyfforddiant ar safleoedd adeiladu ledled Prydain, ac rydym yn paratoi i'w cael yn barod o ddechrau 2021. Rydym hefyd

yn gweithio gyda chyflogwyr y flwyddyn hon ar ffyrdd ymarferol o sicrhau bod unigolion yn 'parod am waith' a rhoi profiad gwaith i'r rhai sy'n dilyn llwybrau, yn arbennig yn cael addysg bellach, i ymuno â'r diwydiant.

Byddwn yn helpu'r rhai sydd am ymuno â'r diwydiant a chael eu sgiliau'n ôl neu ddatblygu eu sgiliau drwy sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd ar gael iddynt ar Am Adeiladu. Y flwyddyn hon, rydym yn gwella Am Adeiladu er mwyn helpu i ddangos y llwybrau sydd ar gael i'r diwydiant. Byddwn yn canolbwyntio ar helpu'r rhai sy'n ailymuno â'r diwydiant yn y tymor byr ond yn paratoi i weithio gyda'r diwydiant er mwyn gwneud y diwydiant adeiladu'n fwy deniadol i recriwtiaid newydd.



Gyrfaoedd: Denu pobl i'r diwydiant a chadw'r rhai sy'n gweithio ynddo

ANGHENION TYMOR BYR Diogelu'r gweithlu presennol

Byddwn yn cefnogi iechyd meddwl y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant drwy weithio mewn partneriaeth ag elusennau arbenigol. Byddwn yn cefnogi'r rhaglen Tegwch, Cynhwysiant a Pharch ac yn helpu'r diwydiant i fod yn fwy cynhwysol a deniadol i bob grŵp.

Byddwn yn cyfeirio pobl at gyfleoedd pan fyddant yn codi drwy ddefnyddio sianeli'r Adran Gwaith a Phensiynau, Am Adeiladu a mecanweithiau eraill.

Byddwn yn cynnal seilwaith y canolfannau hyfforddiant ar safleoedd adeiladu a'r Gronfa Sgiliau Adeiladu llwyddiannus er mwyn rhoi profiadau sy'n arwain at swyddi, a bydd y canolfannau hyn yn weithredol yn hwyrach yn y flwyddyn cyn gynted ag sy'n ymarferol.

WEDI'U DENU I
DDYSGU MWY



YN WYBODUS AC
WEDI'U HYSBRYDOLI



YN CAEL
PROFIAD GWAITH



LLWYBRAU I YMUNO
Â'R DIWYDIANT ADEILADU
(PRENTISIAETHAU)
AC AILYMUNO AG EF



Dod â phobl dalentog i mewn i'r diwydiant adeiladu

ANGHENION TYMOR HWY Datblygu'r llif o dalent

Byddwn yn ystyried ymgyrchu ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn denu pobl i'r diwydiant a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd posibl.

Byddwn yn gwella Am Adeiladu er mwyn rhoi gwybodaeth ymarferol am ffyrdd o ymuno â'r diwydiant a chamu ymlaen ynddo.

Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr ar ffyrdd ymarferol o sicrhau bod unigolion yn 'parod am waith' a rhoi profiad gwaith i'r rhai sy'n dilyn llwybrau i ymuno â'r diwydiant.



Hyfforddi a Datblygu: Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

Un o'r pethau rydym yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd yw diogelu prentisiaethau.

Yn achos newydd-ddyfodiaid, gwneud prentisiaeth yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyfforddi, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod cymaint o brentisiaid â phosibl yn cwblhau eu rhaglenni. Rydym wedi gwneud taliadau grant yn gynharach ar gyfer prentisiaid yn eu hail a'u trydedd flwyddyn ac wedi helpu prentisiaid i barhau i ddysgu, er bod colegau ar gau, gyda chymorth ein Swyddogion Prentisiaethau.

Pan na all prentis gwblhau ei raglen gyda'i gyflogwr presennol am ei fod wedi colli ei swydd, byddwn yn ceisio'i baru â chyflogwr newydd. Byddwn yn defnyddio ein profiad yn dilyn methiant Carillion o baru 72% o brentisiaid a gollodd eu swyddi â chyflogwyr newydd ac ymgysylltu â 90% o brentisiaid drwy gydol y broses. Rydym yn gwybod y bydd yn fwy heriol y flwyddyn hon oherwydd yr amgylchiadau economaidd hollol wahanol yn dilyn argyfwng COVID-19.

Gellir gweld yr arwyddion cynnar bod ein hymyriadau wedi dechrau helpu cyflogwyr yng nghanlyniadau'r arolwg Llais y Cwsmer diweddar, lle dywedodd 75% o gyflogwyr eu bod yn disgwyl gweld eu prentisiaid yn cwblhau eu rhaglenni er gwaethaf yr amgylchiadau anodd.

Byddwn yn buddsoddi £1m o'r Lefi mewn Cynlluniau Rhannu Prentisiaeth er mwyn cynyddu nifer y prentisiaid sy'n cael eu cadw a helpu cyflogwyr mewn ffordd hyblyg.

Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi cyflogwyr i rannu risgiau a chostau tymor hir derbyn prentis â chyflogwyr eraill drwy rannu'r prentis. Mae hyn yn bosibl ym mhob gwlad ac yn galluogi prentisiaid i gael eu rhannu gan gyflogwyr tra byddant yn gwneud eu prentisiaethau, cael eu cadw ar y rhaglen a gweithio ar sawl prosiect ar yr un pryd. Gall pob prentis adeiladu fanteisio ar gynllun o'r fath. Bydd parhau i wneud taliadau sylweddol o £66.1m yn y maes hwn drwy'r Cynllun Grantiau'n helpu cyflogwyr i barhau i hyfforddi. Ar ben hynny, byddwn yn gweithio gyda llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban er mwyn sicrhau bod y system brentisiaethau'n ymateb yn effeithiol i'r galw is disgwylidig am brentisiaid ac, felly, y gostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n dechrau prentisiaethau yn y tymor byr i dymor canolig o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Yn ogystal â chefnogi prentisiaethau, byddwn yn defnyddio'r cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i gyflogwyr er mwyn eu helpu i gwblhau'r hyfforddiant sydd ei angen i ddiweddarau sgiliau gweithwyr ac addasu i'r rheolau newydd ar gyfer safleoedd adeiladu.

Mae'r Cynllun Grantiau'n parhau i gefnogi prentisiaethau, cymwysterau a'r meysydd hyfforddiant mwyaf cyffredin eraill. Byddwn yn cyllido hyfforddiant sy'n fwy penodol i gyflogwyr unigol drwy'r canlynol:

- a. Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Microfusnesau a Busnesau Bach (£8m)** – Mae'r Cronfeydd Sgiliau a Hyfforddiant yn bodoli i roi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig gael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i ymglyfnerthu yn ystod y cyfnod gwella a datblygu wrth i'r diwydiant newid.
- b. Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Busnesau Canolig (£3.5m)** – Fel uchod. Mae'r gadwyn gyflenwi mewn perygl yn ystod y cyfnod gwella, sy'n golygu bod angen i ni gefnogi'r gwaith o gadw a datblygu sgiliau.
- c. Y Gronfa Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr ar gyfer Busnesau Mawr (£3m)** – Mae'r gronfa hon yn bodoli i gydnabod yr angen i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr wrth i fusnesau mawr gryfhau a/neu newid sut maent yn gweithio ac am fod newid strwythurol yn debygol.



Hyfforddi a Datblygu: Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

Mae cyflogwyr yn poeni nad yw cyrsiau addysg bellach yn rhoi'r profiad sydd ei angen o weithio ar safle adeiladu ac nad ydynt chwaith yn datblygu'r sgiliau technegol cywir na'r sgiliau 'parod am waith' cywir.

Am fod llai o gyflogwyr, efallai, yn gallu recriwtio prentisiaid yr hydref hwn, rydym yn debygol o weld mwy o bobl ifanc yn dechrau cyrsiau addysg bellach llawn amser.

Ar hyn o bryd, dim ond 41% o ddysgwyr sy'n astudio adeiladu mewn addysg bellach sy'n mynd ymlaen i gael swyddi neu wneud prentisiaethau yn y diwydiant yn syth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen i gyflogwyr a cholegau gydweithio'n agosach, ac mae angen sicrhau bod yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddysgu mewn addysg bellach yn fwy perthnasol.

Flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom ddechrau arni drwy redeg cynlluniau peilot ar y cyd â cholegau a chyflogwyr i fyfyrwyr gosod brics a myfyrwyr paentio ac addurno. Byddwn yn ychwanegu at hynny'r flwyddyn hon drwy ddod â darparwyr addysg bellach a chyflogwyr ynghyd i nodi ffyrdd o'u helpu i gydweithio'n well. I ddechrau, byddwn yn cael sgysiau'n genedlaethol â chyrrff cynrychiadol er mwyn nodi lle bydd cymorth a chngor cyffredinol o gymorth. Yn lleol, bydd ein Swyddogion Prentisiaethau'n defnyddio'u cysylltiadau â darparwyr a chyflogwyr i ystyried sut y gallwn helpu mwy o ddysgwyr i ymuno â'r diwydiant.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hir, byddwn yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant y

flwyddyn hon er mwyn datblygu llwybrau newydd a gefnogir gan gyflogwyr i'r diwydiant sy'n dechrau yn yr ystafell ddosbarth ond sy'n newid i brentisiaeth ar safle adeiladu cyn gynted ag y bydd lleoliad wedi'i sicrhau. Byddwn yn dechrau drwy ddiffinio'r llwybrau ac, yn hanfodol, y lleoliadau profiad gwaith. Bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25 ac yn helpu dysgwyr sy'n dechrau arni yn 2021.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Addysg a chyrrff dyfarnu perthnasol er mwyn sicrhau bod llwybrau cymhwysedd clir ar gael i ddysgwyr pan fyddant wedi gwneud Lefelau T sy'n ymwneud ag adeiladu. Yn ystod y flwyddyn hon, byddwn yn gweithio drwy ein rhwydweithiau rhanbarthol o gyflogwyr a darparwyr i godi ymwybyddiaeth o Lefelau T ac yn blaenoriaethu'r rhanbarthau hynny lle bydd y gwaith o gyflwyno llwybr Lefel T mewn Dylunio, Arolygu a Chynllunio'n dechrau ym mis Medi 2020. Byddwn yn rhoi gwybodaeth ac adnoddau i gyflogwyr i'w helpu i ymgysylltu â Lefelau T mewn sawl ffordd sy'n amrywio o recriwtio dysgwyr sydd wedi'u gwneud i gynnig diwrnodau blas neu leoliadau tymor hir yn y diwydiant. Byddwn yn helpu cyflogwyr i oresgyn yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â darparu rhaglen profiad gwaith strwythuredig sy'n syml i'r cyflogwr ac sy'n ystyrlon ac yn rhoi profiad cadarnhaol o'r diwydiant i'r unigolyn.

Byddwn yn parhau i fonitro anghenion drwy ddefnyddio ein sail dystiolaeth gref (e.e. y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu). Pan fyddwn yn gallu fforddio gwneud hynny, byddwn yn defnyddio cyfraddau'r Cynllun Grantiau neu lwybrau cyllido buddsoddi i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Yn y tymor byr, byddwn yn canolbwyntio

ar roi gwybod i'r Llywodraeth lle mae'r prif fylchau mewn sgiliau er mwyn sicrhau ei bod yn cydnabod y rhain ac yn eu blaenoriaethu.

Mantais bosibl oherwydd yr argyfwng yw ein bod yn addasu i ffyrdd gwahanol o weithio, gan gynnwys atebion digidol.

Yn hanesyddol, mae'r diwydiant adeiladu wedi bod yn arafach na rhai diwydiannau i newid sut mae'n hyfforddi yng ngoleuni'r angen am brofiad o weithio ar safle adeiladu. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi gweld faint o hyfforddiant a all gael ei gyflwyno'n ddigidol, a byddwn yn parhau i gefnogi hynny. Rydym eisoes wedi darparu prawf lechyd a Diogelwch digidol dros dro er mwyn i gyflogeion gael mynd ar safleoedd adeiladu o hyd os daeth eu cymwysterau i ben tra oedd y cyfyngiadau symud ar waith. Byddwn yn parhau i gefnogi gwneud cyrsiau Site Safety Plus o bell ac yn gweithio gyda Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy ar eu dulliau o gyflwyno cyrsiau dysgu o bell. Mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil, gwnaethom yn bosibl defnyddio amrywiaeth enfawr o gynhyrchion a deunyddiau hyfforddi ar-lein a gafodd eu cyflwyno drwy gomisiynau a chyllid blaenorol. Byddwn yn parhau i ychwanegu at y rhestr hon o adnoddau dros amser er mwyn sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn hawdd mewn gweithle sy'n newid.

Byddwn yn cadw'n agos at y diwydiant a darparwyr hyfforddiant er mwyn deall sut mae rhai o'r newidiadau hyn yn debygol o gael effaith tymor hir ac yn gweithredu wedi hynny i gefnogi hynny yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25.



Hyfforddi a Datblygu: Sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael

ANGHENION TYMOR BYR

Diogelu'r ddarpariaeth bresennol

Gwneud taliadau grant yn gynharach a helpu i baru prentisiaid sydd wedi colli eu swyddi â chyflogwyr newydd

Sicrhau bod y maes addysg bellach a'r diwydiant yn cydweithio'n well yn genedlaethol ac yn lleol

Blaenoriaethu cyllid ar gyfer busnesau bach, canolig a mawr, sicrhau'r Cynllun Grantiau ac ehangu'r ffocws i helpu busnesau i ymglyfnerthu ac addasu i ffyrdd newydd o weithio

Cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein hyfforddiant lechyd a Diogelwch o bell a rhannu cynnwys cyrsiau dysgu o bell â darparwyr drwy ein cronfa werthfawr o hyfforddiant

**CEFNOGI
PRENTISIAETHAU**



**CEFNOGI
ADDYSG BELLACH**



**TARGEDU BYLCHAU
YN Y DDARPARIAETH
HYFFORDDIANT**



**DATBLYGU DULLIAU
MODERN O DDYSGU**



**Y sgiliau cywir pryd bynnag
a ble bynnag y mae eu hangen
ar gyflogwyr**

ANGHENION TYMOR HWY

Datblygu'r dirwedd hyfforddi

Diogelu cyfraddau grantiau prentisiaethau a gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod busnesau o bob maint sy'n derbyn prentisiaid yn cael budd o'r Lefi Prentisiaethau

Datblygu llwybrau i waith o addysg bellach, gan gynnwys modelau lleoliadau gwaith, ar gyfer 2021

Canolbwyntio'n fwy ar uwchsgilio

Gweithio gyda chyflogwyr a darparwyr i gefnogi dysgu digidol a dysgu o bell



Safonau a Chymwysterau: Sicrhau bod safonau ar waith er mwyn gweithio mewn ffordd ddiogel a chynhyrchiol

Mae a wnelo ein gwaith ar safonau a chymwysterau ledled Prydain â sicrhau bod diffiniad clir ar draws y diwydiant o gymhwysedd er mwyn cefnogi llwybrau gwahanol i'r diwydiant a chamu ymlaen ynddo.

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn y maes hwn yn sail i'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gefnogi yn ystod y cyfnod critigol hwn.

Y flwyddyn hon, byddwn yn helpu'r diwydiant i ymateb i'r ffordd y mae fframweithiau prentisiaethau'n newid.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr, cyflogwyr a darparwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gefnogi sawl newid i brentisiaethau ledled Prydain. Mae hyn yn cynnwys datblygu cymhwyster Prentisiaeth Gymreig newydd yng Nghymru, newid o fframweithiau i safonau yn Lloegr ac adolygu Prentisiaethau Modern yn yr Alban. Rydym hefyd wedi sicrhau bod 180 o safonau hyfforddiant wedi'u cymeradwyo at ddibenion dysgu o bell.

Mae adeiladu'n ddiwydiant tameidiog ac arbenigol iawn sy'n golygu, yn aml, nad yw'n glir pa sgiliau a hyfforddiant sydd eu hangen ar gyfer llawer o'r rolau. Mae llwybrau

gyrfa hefyd yn ddryslyd, sy'n golygu bod pobl yn dechrau ar eu gyrfaoedd ac yn camu ymlaen ynddynt mewn gwahanol ffyrdd. Felly, byddwn yn adolygu llwybrau cymhwysedd yn llawn y flwyddyn hon er mwyn helpu cyflogwyr i ddeall y cymwyseddau sydd eu hangen. Bydd y gwaith adolygu hwn hefyd yn nodi'r llwybrau gwahanol a allai helpu unigolion i ddechrau rôl yn gyflymach, symud rhwng rolau'n gyflymach a llywio llwybrau cymhwysedd newydd neu anhraddodiadol. Byddwn yn ystyried sut mae'r diwydiant yn newid drwy sicrhau bod yr angen cynyddol am sgiliau digidol yn cael sylw yn ein diffiniadau o gymhwysedd, a fydd yn ystyried y sgiliau a'r wybodaeth allweddol sydd eu hangen ac ymddygiadau. Eto, byddwn yn dechrau'r gwaith hwn y flwyddyn hon, a bydd rhagor i ddod yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol ar gyfer 2021-25.

Bydd buddsoddi'r Lefi hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynllun cymhwysedd newydd ar gyfer cladio adeiladau drwy gyllido comisiwn cladin sgrin law a fydd yn cael ei gyflawni gan y diwydiant toi, sy'n rhan allweddol o ymateb y diwydiant i ddiogelwch yn dilyn trasiedi Tŵr Grenfell ac adolygiad Hackitt wedi hynny. Mae hyn yn rhan o raglen waith ehangach i gefnogi ymateb y diwydiant i adolygiad Hackitt. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant er mwyn cytuno sut y dylai ei fodlau cymhwysedd fynd y tu hwnt i'w ffocws presennol ar gymhwysedd dechreuol a datblygu'r un mor gyflym â'r newidiadau i'r ffordd y mae'r diwydiant yn gweithio. Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion yn parhau i weithio mewn ffordd effeithiol a diogel.

'Mae a wnelo ein gwaith ar safonau a chymwysterau ledled Prydain â sicrhau bod diffiniad clir ar draws y diwydiant o gymhwysedd er mwyn cefnogi llwybrau gwahanol i'r diwydiant a chamu ymlaen ynddo.'



Safonau a Chymwysterau: Sicrhau bod safonau ar waith er mwyn gweithio mewn ffordd ddiogel a chynhyrchiol

ANGHENION TYMOR BYR

Diogelu ansawdd a diogelwch

Sicrhau bod newidiadau i fframweithiau prentisiaethau ym mhob gwlad yn addas at y diben

Datblygu model cymhwysedd ar gyfer cladio mewn ymateb i drasiedi Tŵr Grenfell, dechrau diffinio anghenion digidol ac ymddygiadol yn y dyfodol ac alinio'r Cynllun Grantiau â hyfforddiant sy'n cael ei gefnogi gan safonau cymeradwy

Sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn haws drwy Am Adeiladu a symleiddio'r daith ymlaen i wefannau gyrfaedd allanol

Helpu'r rheoleiddiwr diogelwch adeiladau newydd wrth iddo ddechrau gweithredu ar yr argymhellion yn dilyn adolygiad Hackitt

**DYLANWADU AR BOLISI -
POLISI SGILIAU'N DIWALLU
ANGHENION SAFLEOEDD ADEILADU**



**GOSOD SAFONAU
CYMHWYSEDD (GAN
GYNNWYS YMDDYGIAD)**



**MAPIO LLWYBRAU
DATBLYGU**



SICRHAU ANSAWDD



Sgiliau ar y safle adeiladu'n diwallu anghenion y cyflogwr a'r cleient

ANGHENION TYMOR HWY

Bod yn fwy hyblyg o ran sut mae cymhwysedd yn cael ei sicrhau a'i gynnal

Sicrhau bod rôl CITB yn glir i wella cymhwysedd ar ran y diwydiant adeiladu

Sicrhau bod safonau'n cefnogi dulliau modern o adeiladu er mwyn gwella cynhyrchiant a pharhau i alinio'r Cynllun Grantiau â hyfforddiant sy'n cael ei gefnogi gan safonau cymeradwy

Adolygu llwybrau cymhwysedd a sut i lywio llwybrau traddodiadol ac anhraddodiadol

Gweithio gyda'r diwydiant er mwyn cytuno sut y dylai ei fodelau cymhwysedd fynd y tu hwnt i'w ffocws presennol ar gymhwysedd dechreuol a datblygu'r un mor gyflym â'r newidiadau i'r ffordd y mae'r diwydiant yn gweithio



Prif ymyriadau yn ôl blaenoriaeth strategol

1. Ymyriadau Gyrfaoedd

Prosiect/Rhaglen	Buddsoddiad yn y Flwyddyn Ariannol
Y Gronfa Sgiliau Adeiladu - Cam 2 Prosiect sy'n estyniad i'r Gronfa Sgiliau Adeiladu, sy'n cefnogi amrywiaeth yn y diwydiant ac sy'n helpu dysgwyr i symud ymlaen i astudio ar gyfer cymwysterau uwch	£300k
Iechyd Meddwl Gwaith sy'n cael ei wneud gyda Lighthouse Club i hyfforddi swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl	£50k
Cadw Newydd-ddyfodiaid (clybiau brecwast) Comisiwn sy'n ceisio profi sut i gadw newydd-ddyfodiaid orau – mae'r prosiectau wedi gorffen fwy neu lai, a byddant yn cael eu gwerthuso er mwyn rhannu'r deilliannau dysgu â'r diwydiant	£50k
Timewise Prosiect sy'n canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant o weithio hyblyg yn y diwydiant	£30k
Cyfanswm yr Ymyriadau Gyrfaoedd	£430k



Prif ymyriadau yn ôl blaenoriaeth strategol

2. Ymyriadau Hyfforddi a Datblygu

Prosiect/Rhaglen	Buddsoddiad yn y Flwyddyn Ariannol	Prosiect/Rhaglen	Buddsoddiad yn y Flwyddyn Ariannol
Dyraniad ar gyfer Bylchau mewn Hyfforddiant Arbenigol (e.e. sgiliau arbenigol a sgiliau sy'n dod i'r amlwg) Gwaith i gefnogi prentisiaethau Sgaffaldio yng ngogledd yr Alban (Aberdeen)	£50k	Rhannu Prentisiaeth Gwaith i gefnogi gwahanol Gynlluniau Rhannu Prentisiaeth ledled Prydain sy'n galluogi unigolion i wneud prentisiaethau mewn achosion pan na fyddai cyflogwr yn gallu derbyn prentis oherwydd y gwaith sydd ganddo ar y gweill a phan na fyddai'n bosibl gwneud hyfforddiant tymor hir am na fydd prosiect adeiladu'n para'n hir	£1m
Grwpiau Hyfforddi Cyflogwyr Gwaith i gefnogi swyddogaeth weinyddu ein rhwydwaith o grwpiau hyfforddi cyflogwyr er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn fwy effeithlon a chosteffeithiol	£1.7m	Taliadau ar gyfer Cyrsiau Arbenigol, Rhaglenni Sgiliau Cymhwysol Arbenigol a Galluogi Darpariaeth Arbenigol Pan na fydd safonau prentisiaethau (neu fframweithiau'n flaenorol) yn bodoli am eu bod yn annichonadwy, mae newydd-ddyfodiaid yn cael eu cefnogi drwy Raglenni Sgiliau Cymhwysol Arbenigol neu raglenni Galluogi Darpariaeth Arbenigol. Mae'r rhain yn cefnogi rhaglenni hyfforddi strwythuredig a gynlluniwyd ar y cyd â'r diwydiannau perthnasol ac y dylai newydd-ddyfodiaid eu dilyn i ddod yn weithwyr cymwys.	£900k
Y Gronfa Hyblyg - wedi'i chario ymlaen o 2019-20 Cyllid i gwblhau nifer o brosiectau ar draws tri maes o flaenoriaeth strategol – byddwn yn sicrhau bod eu manteision yn cael eu rhannu â'r diwydiant	£1.4m	Asesiadau ar Safleoedd Adeiladu yn yr Alban ar gyfer Prentisiaethau Mae'r gwaith o newid a chryfhau'r rheolau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn yr Alban wedi arwain at brinder o aseswyr ar safleoedd adeiladu. Mae'r fenter hon yn cefnogi'r gwaith o hyfforddi neu gofrestru nifer fwy o aseswyr i ddiwallu'r angen hwn.	£200k
Cladin Sgrin Law Menter i'r diwydiant hwn ddatblygu proses barhaus newydd ar gyfer hyfforddi ac asesu cymhwysedd gweithwyr a goruchwylwyr sydd wedi'u hachredu gan RoofCERT ac sy'n ymateb i drasiedi Tŵr Grenfell	£400k	Prifysgol Cymru Cymorth parhaus i orffen y cyfleuster cyntaf yng Nghymru lle gellir gwneud hyfforddiant sgaffaldio Cynllun Cofnod Sgaffaldwyr y Diwydiant Adeiladu	£70k
Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer Prentisiaethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban Gwaith i gefnogi prentisiaid sy'n teithio ymhellach er mwyn hyfforddi	£3.5m	Cyfanswm yr Ymyriadau Hyfforddi a Datblygu	£9.22m

3. Ymyriadau Safonau a Chymwysterau

Prosiect/Rhaglen	Buddsoddiad yn y Flwyddyn Ariannol
Adolygiad Strategol o Fodelau Sicrhau Cymhwysedd Prosiect mewnol sy'n cyfuno ymchwil a gwaith gwerthuso er mwyn deall dulliau effeithiol o sicrhau cymhwysedd a'r rôl y gall CITB ei chwarae yn y gwaith o gefnogi'r diwydiant	£50k
Cyfanswm yr Ymyriadau Safonau a Chymwysterau	£50k
Cyfanswm y Gweithgarwch wedi'i Gyllido	£9.7m
Gyrfaoedd	£430k
Hyfforddi a Datblygu	£9.22m
Safonau a Chymwysterau	£50k



Trosolwg ariannol

SUT RYDYM YN BUDDSODDI'R LEFI

FFYNONELLAU INCWM

£73.8m	Lefi a gafwyd * Lefi llawn a aseswyd ar gyfer y flwyddyn ariannol - £154m	£127.7m	CYFANSWM YR INCWM
£12.4m	Y Gronfa Sgiliau Adeiladu	£59.4m	CRONFEYDD WRTH GEFN
£41.5m	Incwm o gynhyrchion a gwasanaethau	£187.1m	CYFANSWM Y BUDDSODDIAD YN 2020-21
£5.4m	Cyflwyno hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol)		
£15m	Prentisiaethau		
£21.1m	Cynhyrchion		

DYRANNU'R BUDDSODDIAD A CHOSTAU

£90.3m	CYLLID SY'N MYND YN UNIONGYRCHOL I GYFLOGWYR	£23.4m	CYMORTH ARALL
① £43.6m	Grantiau prentisiaethau - 22,130 o ddysgwyr	⑧ £5.4m	Gwasanaethau cefnogi cyflogwyr - ymgysylltu
② £11.2m	Grantiau cymhwysio - 16,940 o gymwysterau	⑨ £12.8m	Y Gronfa Sgiliau Adeiladu
③ £11.3m	Grantiau hyfforddiant byr - 227,263 o gyflawniadau	⑩ £2.8m	Safonau, cymwysterau a gwerthuso
④ £8.0m	Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Microfusnesau a Busnesau Bach - 2,300 o fusnesau wedi'u cefnogi	⑪ £2.4m	Polisi ac ymchwil sgiliau a chyflogaeth
⑤ £3.5m	Y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant ar gyfer Busnesau Canolig - 150 o fusnesau wedi'u cefnogi	£73.4m	DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU
⑥ £3.0m	Y Gronfa Datblygu Arweinyddwyr a Rheolwyr ar gyfer Busnesau Mawr - 60 o fusnesau wedi'u cefnogi	⑫ £18.7m	Cyflwyno hyfforddiant yn uniongyrchol (Colegau Adeiladu Cenedlaethol)
⑦ £9.7m	Gweithgarwch wedi'i gyllido * gweler manylion ar dudalennau 11 i 12	⑬ £25.5m	Prentisiaethau
		⑭ £10.7m	Cynhyrchion a gwasanaethau eraill
		⑮ £18.4m	Costau gweinyddu'r Lefi, grantiau a chynlluniau cyllido eraill

£187.1m CYFANSWM Y GWARIANT YN 2020-21

